# Dadorchuddio Patagonia: Teithio o ddosbarth i ddosbarth gan Rhys Llewelyn
# Y Cymro, Rhagfyr 16, 2000

**Trelew, Rawson a Phorth Madryn**

Byddaf yn cychwyn fy wythnos yn fy milltir sgwâr yn Neuadd Dewi Sant, Trelew, gyda dau ddosbarth yn y bore; oedolion i gychwyn ac wedyn plant. Mae'r dosbarthiadau yn amrywio - rhai wedi eu magu'n Gymraeg pan yn ifanc ac eisiau gloywi a dysgu ysgrifennu, ac eraill yn ddysgwyr. Wedyn, ar brynhawn Llun, byddaf yn addysgu plant am awr, cyn mynd ymlaen at dri dosbarth dechreuwyr, dosbarth trydedd flwyddyn a Chwrs Uwch. Felly, fel y gallwch ddychmygu mae'r amserlen yn brysur iawn. Er mai Nans sydd gyda dosbarth siaradwyr Trelew, mae gen i griw o ddeg o bobl sy'n cyfarfod yn nhai ei gilydd ddwywaith y mis. Dyma gyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg (a dim Sbaeneg!) dros baned ac empanadas (math o bastai efo cig neu gaws a ham), a chyfle i roi'r byd yn ei le trwy gyfrwng y Gymraeg.



**Neuadd Dewi Sant, Trelew**

Ar ddydd Mawrth, byddaf yn treulio hanner awr mewn bws cyn cyrraedd prifddinas talaith Chubut sef Rawson, sydd i'r dwyrain o Drelew. Yma, yn Ysgol 4, byddaf yn addysgu dosbarth o ddechreuwyr a siaradwyr. Mae'r dechreuwyr yn gyfuniad o bobl ifanc ac oedolion, ac mae'r dosbarth siaradwyr yn cynnwys dysgwyr a rhai sy wedi eu magu'n Gymraeg mewn llefydd fel Drofa Dulog a Thir Halen.

Yn Nhrelew eto ar ddydd Mercher (ac awr o Gwrs Pellach ar ddydd Gwener), wedyn ar ddydd Iau byddaf yn treulio awr ar y bws i Borth Madryn cyn ei throedio hi am y "Casa de la Cultura" sydd yng nghrombil y ddinas gerllaw'r môr. Delia Evans (merch Gwalia Davies de Evans), sy'n wreiddiol o Ddolavon ac yn un o gyn-fyfyrwyr Llanbed, sy'n addysgu'r dechreuwyr; ac wedyn byddaf i gyda thri dosbarth arall. Mae rhai yn dilyn y cwrs Wlpan a'r lleill yn dilyn y Cwrs Pellach. Mae'r dosbarth siaradwyr yn

gyfuniad diddorol o rai sy wedi bod ar gyrsiau Wlpan Llanbed i unigolion gafodd eu magu yn Nyffryn Camwy.

Nid addysgu'n unig yw ein dyletswyddau ni. Lluniwyd posteri o bob math yn hysbysebu'r dosbarthiadau mewn digwyddiadau pwysig fel Ffair Grefftau Chubut a'r dathliadau ar hyd a lled y dyffryn ar Ŵyl y Glaniad. Trefnu wedyn i hysbysebu'r gwersi mewn papurau newydd cyhoeddus a chwmni radio heb sôn am dargedu unigolion mewn gweithgareddau cymdeithasol. Rhoddais hyffordiant cyfrifiadurol yn yr Andes i'r athrawon, ac i Sandra de Pol, sef enillydd cystadleuaeth dysgwraig y flwyddyn yn Llanelli eleni. Dyma i chi berson sy'n wirioneddol haeddu'r wobr ac mae'n gosod esiampl i'r rhai sy yma ar hyn o bryd yn dysgu Cymraeg. Trefnwyd gyda dosbarth trydedd flwyddyn Trelew, daith efo dros hanner cant o bobl y dyffryn: Porth Madryn, Rawson, Trelew, Gaiman a Dolavon i Argae Ameghino - roedd hyn ar y penwythnos wedi Eisteddfod y Wladfa! Cafwyd helfa drysor, eisteddfod wirion, canu, dawnsio gwerin, ac asado i ddiweddu'r diwrnod, a hynny yn enw "defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth."

Cyn diwedd y mis, byddaf yn cyd-gyflwyno gyda Gabriel Restucha a Catrin Morris de Junyent, y Gaiman mewn gŵyl fawr "Expo Trelew" (sy fel rheol yn denu oddeutu 40 mil o bobl) am addysgu’r Gymraeg yn nhalaith Chubut. Byddwn ynghyd ag athrawon eraill sy'n addysgu ieithoedd tramor yn y ddinas, yn esbonio ein dulliau addysgu, ein gweithgareddau ac yn egluro pwysigrwydd prosiect hanfodol y Cyngor Prydeinig i geisio hybu defnydd o'r Gymraeg yn y Wladfa.

Rhaid i mi fynd - dw i angen paratoi gwersi, trefnu Noson Lawen arall i ddiweddu'r flwyddyn addysgol (mewn pythefnos) a llunio tystysgrifau, heb sôn am drafod i weld pryd fydd y gwersyll haf ym Madryn. O ia, cyn tewi, Dolig Llawen i bawb yng Nghymru fach - cofion fil at bawb.